Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# Cod Ymddygiad Lleol

# Hysbysiadau Cosb Penodedig

# 2024-2027

*Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn y Saesneg ac mewn ieithoedd a fformatau eraill.*

## CYNNWYS


| | | Tud |
|---|---|---|
| 1. | SAIL GYFREITHIOL A RHESYMEGOL .................................................................................. | **3** |
| 2. | POLISI A CHYHOEDdUSRWYDD.......................................................................................... | **4** |
| 3. | PWY ALL GYFLWYNO HYSBYSIAD COSB BENODEDIG ..................................................... | **4** |
| 4. | AMGYLCHIADAU Y GELLIR CYFLWYNO HYSBYSIAD COSB BENODEDIG .......................... | **4** |
| 5. | PRYD Y GELLIR YSTYRIED HYSBYSIADAU COSB PENODEDIG: ........................................ | **4** |
| 6. | GWEITHDREFN AR GYFER CYFLWYNO HYSBYSIAD COSB BENODEDIG........................... | **5** |
| 7. | YMARFEROLDEB CYFREITHIOL............................................................................................ | **5** |
| 8. | MONITRO AC ADOLYGU ........................................................................................................ | **5** |
| 9. | TYNNU HYSBYSIAD COSB BENODEDIG YN ÔL.................................................................. | **5** |
| 10. | HAWL I APELIO...................................................................................................................... | **6** |
| 11. | TALU HYSBYSIADAU COSB PENODEDIG........................................................................... | **6** |
| 12. | CYFLEOEDD CYFARTAL......................................................................................................... | **6** |
| 13. | RHAGOR O WYBODAETH....................................................................................................... | **6** |
| 14. | SIART LIF HYSBYSIAD COSB BENODEDIG ......................................................................... | **7** |

## 1.0 Sail Gyfreithiol a Rhesymegol

1.1 Mae deddfwriaeth newydd yn grymuso swyddogion dynodedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT) i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Penodedig (HCP) i rieni plant a phobl ifanc sydd ag absenoldebau sydd heb eu hawdurdodi mewn ysgol a/neu unedau atgyfeirio disgyblion. Cyfrifoldeb y Gwasanaeth Lles Addysg (GLlA) yw cyflwyno HCP, mewn ymateb i geisiadau gan benaethiaid a'u dirprwyon dynodedig.

1.2 Mae presenoldeb rheolaidd a phrydlon disgyblion mewn ysgolion/unedau atgyfeirio yn ofyniad cyfreithiol ac yn hanfodol er mwyn i ddisgyblion wneud y mwyaf o'u cyfleoedd addysgol. Mae rhieni/gofalwyr a disgyblion yn derbyn cefnogaeth yr ysgol a'r awdurdod lleol i oresgyn rhwystrau sydd yn effeithio ar bresenoldeb rheolaidd a hynny drwy amrywiaeth o asesiadau a strategaethau a bydd cosbau ond yn cael eu defnyddio pan na fydd cydweithrediad yn cael ei dderbyn gan rieni neu fod y cydweithrediad hwnnw'n annigonol er mwyn datrys y broblem. Mae hysbysiadau cosb penodedig yn fodd i orfodi presenoldeb lle y mae'n rhesymol i ddisgwyl y bydd yn sicrhau gwelliant cyn y bydd y broblem yn gwaethygu gan leihau'r angen ar gyfer erlyniadau hir a chostus.

1.3 Amlinellir y ddeddfwriaeth sydd yn llywodraethu gweithrediad HCP yn y canlynol:

- Adrannau 444A a 444B, Deddf Addysg 1996;
- Deddf Addysg ac Archwiliadau 2006;
- Rheoliadau (Hysbysiadau Cosb) Addysg (Cymru) 2013;
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011;
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (yr Hawl i Addysg);
- Canllawiau Llywodraeth Cymru (LlC);
- Rheoliadau Addysg (Cofrestriad Disgybl) (Cymru) 2010.

1.4 Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am ddatblygu Cod Ymddygiad ar gyfer pob partner ac fel rhan o'i ddyletswyddau statudol er mwyn sicrhau presenoldeb ysgol. Mae'n briodol i'r GLlA ei ddarparu ar ran yr awdurdod lleol.

1.5 Mae Adran 7, Deddf Addysg 1996 yn nodi fod gan:
"Rhiant bob plentyn o oed ysgol gorfodol ddyletswydd i'r plentyn hwnnw dderbyn addysg lawn amser effeithiol sydd yn briodol i'w oed a'i allu ac unrhyw anghenion addysgol ychwanegol y gallai fod ganddo naill ai drwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu arall."
Diffiniad cyfreithiol rhiant yw: "pob rhiant naturiol boed hwy'n briod ai peidio, unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant."

1.6 Mae presenoldeb rheolaidd a phrydlon yn yr ysgol neu mewn darpariaeth amgen yn ofyniad cyfreithiol ac yn hanfodol er mwyn sicrhau fod plentyn yn gwneud y gorau o'i gyrhaeddiad addysgol a'r cyfleoedd sydd ar gael iddo.

1.7 Mae tystiolaeth yn dangos fod plant sydd â phresenoldeb isel yn annhebygol o lwyddo'n academaidd a'u bod yn fwy tebygol i beidio bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) pan fyddant yn gadael yr ysgol.

1.8 Mae Adran 444, Deddf Addysg 1996 yn ei gwneud yn drosedd i riant fethu â sicrhau presenoldeb plentyn yn yr ysgol lle y mae wedi'i gofrestru a lle nad yw absenoldebau wedi cael eu hawdurdodi.

## 2.0 Polisi a Chyhoeddusrwydd

2.1 Mae'n ofynnol i benaethiaid wneud penderfyniadau ynghylch awdurdodi absenoldeb a chodio dilynnol (Codau Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan 2010,) er mwyn categoreiddio'r rheswm dros yr absenoldeb. Disgwylir i bob ysgol gael polisi presenoldeb sydd yn amlinelli'n glir y weithdrefn feunyddiol sydd yn ei lle i olrhain absenoldeb disgybl a sut y pennir y gellir cyfiawnhau absenoldeb ai peidio.

## 3.0 Pwy all gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig?

3.1 Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i Benaethiaid a'r Heddlu (gan gynnwys dirprwyon dynodedig) a swyddogion dynodedig yr awdurdod lleol (SLlA) i gyflwyno HCP. Fodd bynnag, er mwyn peidio dyblygu hysbysiadau cosb penodedig, cyfrifoldeb y GLlA yn unig yw'r trefniadau rheoli a phrosesu. Bydd y Gwasanaeth yn gweithio, mewn ymgynghoriad a phartneriaeth ag ysgolion a swyddogion yr heddlu lleol er mwyn sicrhau fod:

- hysbysiadau'n cael eu defnyddio'n gyson;
- nad yw hysbysiadau'n cael eu cyflwyno pan fydd gweithrediadau o dan adran 444 (1) neu (1A) yn cael eu hystyried neu wedi dechrau; a
- nad oes gwrthdaro ag unrhyw ymyriad arall sydd eisoes yn ei le.

## 4.0 Amgylchiadau y gellir cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig

4.1 Bydd penaethiaid, eu dirprwyon dynodedig a'r Uwch Swyddog Lles Addysg yn ystyried y canlynol cyn cyflwyno HCP:

- Lefel yr absenoldeb;
- Deddfwriaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth;
- Hanes y problemau presenoldeb a'r camau a gymerwyd;
- Canllawiau Llywodraeth Cymru (LlC;)
- Effeithiolrwydd yr Hysbysiad Cosb Benodedig fel modd i sicrhau cydymffurfiaeth;
- Lefel ymgysylltiad/cydweithrediad y rhiant;
- Datganiad Anghenion Addysgol Ychwanegol.

## 5.0 Pryd y gellir ystyried Hysbysiadau Cosb Penodedig:

- Pan fydd o leiaf deg sesiwn (pum diwrnod ysgol) wedi cael ei golli yn sgil **unrhyw** absenoldeb nad sydd wedi cael ei awdurdodi yn ystod y tymor cyfredol (gallai hyn gynnwys gwyliau yn ystod y tymor ysgol - nid oes rhaid iddynt fod yn ddilynol;)
- Cyrraedd yr ysgol yn hwyr, yn rheolaidd h.y. wedi cofrestru yn ystod y tymor cyfredol. Mae "rheolaidd" yn golygu cyrraedd yn hwyr ar gyfer o leiaf deg sesiwn;
- Methiant rhieni/gofalwyr i ymgysylltu â'r ysgol a/neu GLlA i geisio gwella presenoldeb ond lle nad yw cosb y llysoedd wedi'i weithredu; a
- Mae disgybl yn dod i sylw'r heddlu'n rheolaidd yn ystod oriau ysgol pan fydd yn absennol o'r ysgol heb reswm derbyniol.

## 6.0 Gweithdrefn ar gyfer cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig

6.1 Bydd y GLlA yn ymateb i bob cais i gyflwyno HCP ymhen deg diwrnod a pan fyddant yn fodlon fod y meini prawf perthnasol wedi'u cyflawni:

- Anfon rhybudd ysgrifenedig, ffurfiol i riant/gofalwr yn eu hysbysu y gallant dderbyn HCP a pham
- Gosod cyfnod o 15 diwrnod lle na ddylai'r disgybl fod yn absennol, heb awdurdod o'r ysgol
- Os, ar diwedd y 15 diwrnod nad oes gwelliant, bydd Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei gyflwyno drwy'r post gan ddefnyddio stamp dosbarth cyntaf
- Os oes gwelliant o ran presenoldeb ac nad oes absenoldebau nad sydd wedi cael eu hawdurdodi, ni fydd Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei gyflwyno
  *Nodwch, pan fydd ysgol yn gwneud cais i Hysbysiad Cosb Benodedig gael ei gyflwyno ar gyfer absenoldeb gwyliau nad sydd wedi cael ei hawdurdodi, ni fydd y rhybudd ffurfiol a'r cyfnod gwelliant o 15 diwrnod yn berthnasol.*
- Nid oes cyfyngiad ar y niferoedd o weithiau y gall hysbysiad rhybudd gael ei gyflwyno.
- Fel sydd yn wir â phob erlyniad, gall HCP gael eu cyflwyno ar gyfer pob rhaint/gofalwr sydd yn gyfrifol am y drosedd.

## 7.0 Ymarferoldeb Cyfreithiol

7.1 Mae HCP yn £60.00 os byddant yn cael eu talu ymhen 28 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad a bydd hyn yn codi i £120.00 os byddant yn cael eu talu wedi'r 28 diwrnod (ond oddi fewn 42 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad.) Os naf fydd HCP yn cael eu talu'n llawn ymhen 42 diwrnod, bydd yr awdurdod lleol yn:

- Erlyn rhiant/gofalwyr o dan adran 444(1) a 444(1A) o Ddeddf Addysg 1996 am fethiant i sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu
- Dynnu'r HCP yn ôl (mewn rhai amgylchiadau prin fel sydd wedi'u nodi yn y Cod Ymddygiad)
- Gellir cyflwyno mwy nag yn Hysbysiad Cosb Benodedig yn ystod y flwyddyn academaidd.

## 8.0 Monitro ac Adolygu

8.1 Bydd pob Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael eu mewn bynnu i gronfa ddata sydd yn cael ei gynnal gan y GLlA er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu dyblygu ac er mwyn gwerthsuo effeiyhiolrwydd y broses yn y fwrdeistref.

## 9.0 Tynnu Hysbysiadau Cosb Penodedig yn ôl

9.1 Wedi iddo gael ei gyflwyno, gellir tynnu'r Hysbysiad Cosb Benodedig yn ôl os gellir profi fod:

- Tystiolaeth fod yr Hysbysiad wedi cael ei gyflwyno i'r unigolyn/cyfeiriad anghywir
- Nid yw'r hysbysiad yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer
- Mae'r dystiolaeth yn dangos na ddylai'r Hysbysiad Cosb Benodedig fod wedi cael ei gyflwyno e.e. tystiolaeth feddygol (mae gan rieni/gofalwyr 15 diwrnod i gyflwyno tystiolaeth)
- Bydd hysbysiad tynnu yn ôl yn cael ei gyflwyno i'r rhiant/gofalwr

**10.0 Hawl i apelio**

10.1 Nid oes hawl statudol i apelio ond pan fydd rhiant yn gwneud hynny, gall gyflwyno unrhyw gwynion i'r GLlA a/neu wynebu gweithrediadau yn Llys yr Ynadon o dan adran 444 (1) Deddf Addysg 1996.

**11.0 Talu Hysbysiadau Cosb Penodedig**

- Ceir manylion ynchylch talu yn yr HCP
- Mae talu HCP yn rhyddhau atebolrwydd y rhiant ar gyfer y cyfnod sydd o dan sylw ac ni ellir ei erlyn o dan bwerau gorfodi (adran 444 (1)) am gyfnod y HCP
- Gellir talu mewn rhandaliadau, yn destun awdurdodiad gan yr Awdurdod Lleol
- Bydd Lles Addysg yn cadw unrhyw refeniw HCP ac yn ei ddefnyddio i dalu am gostau gorfodi h.y. costau sydd yn gysylltiedig â'r cyflwyniad, casgliad neu'r erlyniad neu beidio talu HCP.

12.0 **Cyfle Cyfartal**

12.1 Rhaid i HCP gydymffurfio â deddfwriaethau eraill fel Deddf Hawliau Dynol a deddfwriaethau perthnasol Cyfleoedd Cyfartal er mwyn sicrhau cysondeb.

**13.0 Rhagor o wybodaeth**

13.1 Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch gweithrediad y Cod Ymddygiad a'r HCP gan:

Gwasanaeth Lles Addysg
Adran Ysgolion
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Canolfan Dinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN
Rhif Ffôn: 01685 724607
E-bost: educationwelfare@merthyr.gov.uk

## 14.0 Siart Lif Hysbysiad Cosb Benodedig

